



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2013–14



# Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2013–14

## Cynulleidfa

Pob corff sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; consortia rhanbarthol; awdurdodau lleol; Comisiynydd y Gymraeg; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC); sefydliadau addysg uwch; sefydliadau addysg bellach; Colegau Cymru; darparwyr dysgu seiliedig ar waith; sefydliadau a fforymau cyflogwyr; Estyn; undebau llafur; Canolfannau Cymraeg i Oedolion; y Ddraig Ffynci; Cynghorau Sgiliau Sector/cyrff gosod safonau; Gyrfa Cymru; y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE); Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA); Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG); Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG); Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc; Mentrau Iaith Cymru; sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.

## Trosolwg

Cyhoeddwyd y *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* ym mis Ebrill 2010. Mae'r strategaeth yn cynnwys targedau penodol pum mlynedd a thargedau dangosol deng mlynedd yn seiliedig ar allbynnau a gaiff eu defnyddio i fonitro cynnydd yn gweithredu'r strategaeth. Mae ymrwymiad yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg i fonitro cynnydd yn erbyn y targedau yn y strategaeth ac i gyhoeddi adroddiad blynyddol.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Uned y Gymraeg mewn Addysg

Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Tŷ'r Afon

Heol Bedwas

Caerffili

CF83 8WT

e-bost: [addysg.gymraeg@cymru.gsi.gov.uk](mailto:addysg.gymraeg@cymru.gsi.gov.uk)

## Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

[www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau](http://www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau)

## Dogfennau cysylltiedig

*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg – Ymgynghoriad (067/2009)*; *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010)*; *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2010–11 (2011)*; *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2011–12 (2012)*; *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2012–13 (2013)*; *iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17 (2012)*; *iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17 – Cynllun Gweithredu 2012–13 (2012)*; *iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17 – Adroddiad blynyddol 2012–13 (2014)*.

# Cynnwys

<b>Rhagair y Gweinidog</b>	<b>2</b>
<b>Nodau strategol</b>	<b>4</b>
Nod strategol 1	4
Nod strategol 2	7
Nod strategol 3	12
Nod strategol 4	15
Nod strategol 5	19
Nod strategol 6	22
<b>Targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, adroddiad Mawrth 2014</b>	<b>26</b>

## Rhagair y Gweinidog

Yn y Rhaglen Lywodraethu, fe wnaethom ymrwymo i gyflawni'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys ymateb i'r galw ymhlith rhieni a myfyrwyr am addysg a hyfforddiant ar gyfer pob oedran, sicrhau bod dilyniant o'r naill gyfnod i'r llall o ran y Gymraeg a darparu digon o ymarferwyr o ansawdd uchel ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. A ninnau bellach wedi cwblhau'r bedwaredd flwyddyn o weithredu'r strategaeth, mae'r adroddiad hwn yn crisialu'r prif ddatblygiadau a fu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rwy'n falch o allu datgan bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i weithredu'r holl gamau y'u clustnodwyd ar ein cyfer yn Rhaglen Weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Roedd nifer o'r camau yn golygu cyflwyno polisiau newydd neu gyflwyno dulliau newydd o gynllunio, tra bod eraill yn ymwneud â datblygu ac ariannu prosiectau penodol i wella rhai elfennau o'r system addysg a hyfforddiant.

Hoffwn dynnu sylw at rai o'r prif ddatblygiadau dros y flwyddyn ddiwethaf, sef:

- cyflwyno Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 a derbyn y cynlluniau statudol cyntaf
- rhannu data am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar er mwyn hwyluso'r broses o gynllunio addysg statudol
- cyflwyno gofynion penodol ar ddarparwyr hyfforddiant yn seiliedig ar waith fel rhan o'r tendr ar gyfer pennu darparwyr
- cyflwyno rhaglen o hyfforddiant iaith i ymarferwyr yn y sector gofal plant
- ymestyn y Cynllun Sabothol i gynnwys cynorthwywyr dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg
- derbyn argymhellion y Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion a chychwyn ar y gwaith o'u gweithredu
- cyhoeddi 160 o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i gefnogi'r dysgu ac addysgu
- lansio ymgyrch farchnata a chyfathrebu tair blynedd i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg.


Fe wnaethom gydnabod yn agored y llynedd nad ydym yn debygol o gyflawni'r holl dargedau'r strategaeth erbyn 2015. Fodd bynnag, mae'n dda gallu nodi bod cynnydd pellach i'w weld yn erbyn rhai o'r targedau, a bod y targed i gynyddu nifer y dysgwyr 16–19 oed

sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn colegau addysg bellach neu ddysgu seiliedig ar waith bellach wedi'i gyflawni. Fodd bynnag, mae dilyniant ieithyddol rhwng cyfnodau allweddol yn parhau i fod yn achos pryder a bydd Llywodraeth Cymru yn annog yr awdurdodau lleol i roi sylw pellach i hyn yn ystod y flwyddyn nesaf. Yn ogystal, mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch wedi gostwng ers cyhoeddi'r strategaeth. Gobeithir y bydd y cynlluniau i ddiwygio'r manylebau Safon Uwch yn helpu i liniaru'r gostyngiad hwn i'r dyfodol.

Mae nifer o ddatblygiadau ehangach ar y gweill ym maes addysg a hyfforddiant sydd yn cael effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg. Mae datblygiad y model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan bob haen i'w chwarae i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc, ac mae'n holl bwysig bod y sector cyfrwng Cymraeg yn manteisio ar y gefnogaeth ac yn cyfrannu'n rhagweithiol i'r datblygiad hwn.

Mae'r adolygiad o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru yn mynd rhagddo a bydd yr Athro Donaldson yn ystyried argymhellion y Grŵp Adolygu Cymraeg Ail Iaith fel rhan o'r adolygiad hwn. Yn ogystal, bydd sicrhau argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn rhan ganolog o'r gwaith o weithredu argymhellion yr adolygiad cymwysterau.

Wrth i ni droi ein golygon at y flwyddyn olaf o Raglen Weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, yr her yw sicrhau bod y consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion, colegau, prifysgolion, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a'n partneriaid eraill (megis sefydliadau dyfarnu, cyhoeddwyr a mudiadau Cymreig) yn chwarae eu rôl. Ni all Llywodraeth Cymru wireddu'r newid systematig sydd ei angen i sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn parhau i ffynnu ar ei ben ei hun. Mae angen i'n rhanddeiliaid ar bob haen o'r system weithredu er mwyn sicrhau bod amcanion y strategaeth yn cael eu cyflawni.



**Huw Lewis AC**  
**Gweinidog Addysg a Sgiliau**

## Nodau strategol

### **Nod strategol 1:**

**Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn statudol a statudol, ar sail ymateb yn rhagweithiol i'r galw gwybodus ymhlith rhieni.**

### **Gwaith cynllunio awdurdodau lleol**

#### Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Bu Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Aseu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 drafft yn destun ymgynghoriad dros wyth wythnos rhwng 28 Mehefin a 23 Awst 2013.

Ar y cyfan roedd yr ymatebwyr yn fodlon ar gynnwys y Rheoliadau ond, yn sgil y sylwadau a gyflwynwyd, cwtogwyd ar y cyfnod ymgynghori ar y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAau) o 10 i 8 wythnos. Hefyd, penderfynwyd nad oedd rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad cynnydd ynghyd â diwygio eu CSGAau yn flynyddol. Cynhaliwyd dau weithdy ar gyfer cynrychiolwyr awdurdodau lleol i drafod gofynion y Rheoliadau.

Daeth y Rheoliadau<sup>1</sup> i rym ar 31 Rhagfyr 2013 a chyhoeddwyd canllawiau yn adlewyrchu eu cynnwys. Bellach, cyflwynodd pob awdurdod lleol eu CSGA i Lywodraeth Cymru a chynhaliwyd ymgynghoriad ar y CSGAUau. Erbyn hyn, mae cyngor wedi ei gyflwyno i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ynglŷn â chymeradwyo'r CSGAau ai peidio.

#### Trefniadaeth ysgolion

Cymeradwyodd Gweinidogion Cymru un cynnig, a gafodd ei wrthwynebu, i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg cynradd yn 2013/14. Yn ogystal, cymeradwyodd un awdurdod lleol ei gynnig i gynyddu capasiti ysgol uwchradd yn sylweddol, gan na chafwyd unrhyw wrthwynebiad statudol i'r cynnig hwn. Mewn awdurdod lleol arall, trosglwyddodd un ysgol gynradd i adeilad mwy o faint cyfagos.

Daeth Rhan tri Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i rym yn ystod 2013–14 gan gyflwyno trefn statudol wedi'i symleiddio i wneud newidiadau i ddarpariaeth ysgol. Ni fydd angen

<sup>1</sup> [www.assemblywales.org/cy/sub-ld9585-e.pdf](http://www.assemblywales.org/cy/sub-ld9585-e.pdf)

i gynigion a gyhoeddir o hydref 2013 ymlaen gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, ag eithrio o dan amgylchiadau penodol. Awdurdodau lleol fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar y mwyafrif o gynigion ac felly dylent gael eu gwneud y fwy amserol. Dylai hyn hwyluso'r gwaith o gynllunio lleoedd ysgol yn strategol.

Yn ddiweddar, cwblhaodd dau awdurdod lleol ymgynghoriad ar newidiadau i ddarpariaeth ysgol gynradd er mwyn cwrdd â'r galw. Bwriada awdurdod lleol arall drosglwyddo ysgol, gan ddarparu adeiladau newydd, ac mae awdurdod lleol arall yn bwriadu cynyddu capasiti ysgol gynradd gan 210 o leoedd.

### Arian cyfalaf ar gyfer ysgolion

Mae'r Rhaglen Gyfalaf i sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn rhaglen allweddol, strategol a hirdymor ar gyfer buddsoddi cyfalaf gyda'r nod o greu cenhedlaeth o ysgolion 21ain ganrif yng Nghymru. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio adnoddau ar y math cywir o ysgolion yn y lleoedd cywir, o'r blynyddoedd cynnar i ôl-16. Mae hyn yng nghyd-destun yr angen i sicrhau gwerth gorau am gyllid cyhoeddus mewn cyfnod ariannol heriol.

Bydd y rhaglen yn buddsoddi cyfanswm o £1.4 biliwn yn yr isadeiledd addysg dros y pum mlynedd nesaf. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i gefnogi'r iaith Gymraeg trwy fuddsoddi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog newydd neu gynyddu neu wella amodau mewn ysgolion presennol. O ran ysgolion newydd, disgwylir i awdurdodau lleol ddangos galw ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg ynghyd â rhagamcan o niferoedd dysgwyr. Hyd yn hyn, mae'r Panel Buddsoddi Cyfalaf, y corff sy'n gwneud penderfyniadau ar ran y rhaglen, wedi cytuno mewn egwyddor ac yn ddarostyngedig i gynlluniau busnes llawn, buddsoddiad o £120 miliwn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Mae sicrhau dilyniant i'r iaith Gymraeg yn parhau yn un o'r deilliannau allweddol o fewn y Rhaglen Gyfalaf i sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i Lywodraeth Cymru.

### Cynyddu mynediad i ddarpariaeth statudol cyfrwng Cymraeg

Ym mis Tachwedd 2013, lansiwyd ymgyrch farchnata a chyfathrebu tair blynedd i godi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fel bod rhieni a gofalwyr yn gallu ystyried y dewisiadau sydd ar gael iddynt. Roedd nifer o elfennau gwahanol i'r ymgyrch gychwynnol, gan gynnwys hysbysebu yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol yn ogystal â digwyddiadau mwy lleol. Bydd yr ymgyrch yn parhau yn 2014–15 gan dargedu ardaloedd penodol a thrwy gydweithio â'r awdurdodau lleol.

## Y blynyddoedd cynnar

### Gofal plant

Mae gofyn i awdurdodau lleol yn eu CSGAau ystyried y berthynas rhwng Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a'u cynlluniau i ehangu gofal plant yn yr iaith Gymraeg. Mae'r grantiau a ddyrennir i sefydliadau sy'n darparu gofal plant yn y Gymraeg hefyd yn fodd i sicrhau gwell darpariaeth ar gyfer plant a'u rhieni/gofalwyr.

### Mudiad Meithrin

Yn ystod 2013–14 roedd y prif dargedau ar gyfer y grant hwn yn canolbwyntio ar adeiladu ar y gwaith cynllunio gydag awdurdodau lleol ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Ar gyfer 2014–15 bydd y grant yn ymdrechu i ddwysau'r cydweithio gydag awdurdodau lleol trwy ddefnydd pwrpasol o ddata cyfredol. Rhannwyd data Mudiad Meithrin gyda phob awdurdod lleol er mwyn hwyluso'r broses gynllunio. Parhawyd i fonitro grant Mudiad Meithrin a rhoddwyd pwyslais mawr ar wella'r modd y mae Mudiad Meithrin yn cyfrannu at y drefn gynllunio gan bob awdurdod lleol.

Bydd Mudiad Meithrin yn treialu rhagor o fodelau darpariaeth amrywiol er mwyn ymestyn a datblygu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg gan ystyried sut y gall rhieni/gofalwyr gael mynediad yn fwy parod a fforddiadwy at y math hwn o ddarpariaeth.

### Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru

Derbyniodd NDNA Cymru a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru nawdd grant o £50,000 yr un gan Lywodraeth Cymru er mwyn iddynt gynnig cefnogaeth i'r cynllun hyfforddiant iaith i ymarferwyr gofal plant – 'Un, Dau, Tri – Hwyl a Sbri'. Mae'r rhaglen yn cael ei darparu gan Brifysgol De Cymru mewn partneriaeth â'r chwe Canolfan rhanbarthol Cymraeg i Oedolion ledled Cymru. Bydd yn helpu ymarferwyr i ddatblygu'r sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg sydd eu hangen i sicrhau bod plant yn cael eu cyflwyno i'r iaith yn ifanc. Bydd Cymdeithas Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru yn codi ymwybyddiaeth ynghylch y cwrs hyfforddiant hwn, yn cynnig cyrsiau blasu, ac yn annog ymarferwyr i fynychu a gweinyddu taliadau bwrsariaeth o £50 i bob aelod sy'n cwblhau'r cwrs i ad-dalu costau'r ymarferwyr o ran amser a chostau teithio wrth fynychu'r cwrs.



## Hwyrddyfodiaid a darpariaeth drochi arall

Gofynnwyd i awdurdodau lleol adrodd ar gamau a gymerwyd i gyflwyno'r iaith i ddysgwyr sydd yn hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg a hefyd i gynnal prosiectau sydd yn cefnogi trochi hwyr. Roedd modd i awdurdodau lleol ddefnyddio Grant y Gymraeg mewn Addysg (GGA) i gefnogi'r gweithgareddau yma. Yn 2013–14 roedd 22 o gyfleusterau i gefnogi hwyrddyfodiaid ar draws naw o awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn nodi bod y dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd da ac yn gallu symud ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i'r ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid a'r ddarpariaeth drochi hwyr.

### **Nod strategol 2:**

**Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus.**

## Llwybrau Dysgu 14–19

Cydymffurfiodd y pedwar rhwydwaith rhanbarthol â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn ystod 2013–14 a oedd yn cynnwys cynnal yr opsiynau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Yn ystod 2013–14 neilltuwyd £1.341m i barhau i gefnogi darpariaeth alwedigaethol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog trwy'r rhwydweithiau rhanbarthol 14–19, a thrwy weithgareddau'r tri fforwm cyfrwng Cymraeg trawsffiniol. Mae prif weithgareddau'r fforymau yn cynnwys hyrwyddo cydweithio i ddarparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg traws-sector, sicrhau llwybrau dilyniant priodol a chynnig cyfleoedd cyfoethogi amrywiol i bobl ifanc ddefnyddio'u Cymraeg yng nghyd-destun pynciau galwedigaethol y tu allan i'r dosbarth.

Mae dadansoddiad o'r cyrsiau a gynigiwyd yn 2012/13, a ariannwyd gan y cyllid 14–19 a neilltuwyd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, yn dangos bod cyfanswm o 159 o gyrsiau ar gael gan gynnwys 71 cwrs ar Lefel 3.

## Datblygiadau yn y ddarpariaeth ôl-16 ym maes addysg bellach

### Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd

Bellach mae'r holl golegau addysg bellach yn rhan o Brosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd ac yn cyflogi swyddog i weithio ar adeiladu seilwaith cadarn i gynllunio a gweithredu strategaethau'r

colegau ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan gynnwys cynnal a datblygu sgiliau ieithyddol siaradwyr Cymraeg. Daeth y grant i'r pedwar coleg cyntaf oedd yn rhan o'r prosiect i ben ddiwedd Awst 2013 ac mae'r colegau hynny yn parhau i gyflogi eu Hyrwyddwyr Dwyieithrywdd i gario ymlaen gyda'r gwaith o gynllunio a chynyddu'r ddarpariaeth yn y colegau. Mae'r Hyrwyddwyr Dwyieithrywdd yn cynrychioli'u colegau ar y fforymau 14–19 cyfrwng Cymraeg ac yn allweddol wrth feithrin y berthynas rhwng ysgolion a cholegau.

### Sgiliaith

Gwelodd y flwyddyn 2013–14 newidiadau yn staff Sgiliaith er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth hyfforddiant a defnydd o'r dechnoleg rhyngweithiol ddiweddaraf. Cynhelir cyrsiau yn amrywio o'r Modiwl MA Methodoleg Addysgu Dwyieithog sy'n bum niwrnod o hyd i gwrs hanner diwrnod y Twlcit Dwyieithrywdd, sy'n rhoi gwybodaeth ar weithio'n ddwyieithog a chyflwyno agwedd Gymreig mewn addysgu cyfrwng Saesneg. Yn ychwanegol at hyfforddi tiwtoriaid addysg bellach, mae Sgiliaith yn cefnogi tiwtoriaid dysgu seiliedig ar waith mewn partneriaeth â Hyrwyddwyr Dwyieithrywdd y sector. Yn ogystal cyflwynir sesiynau ymwybyddiaeth i gyrff llywodraethau ac uwch dimau rheoli'r colegau addysg bellach.

### ColegauCymru

Mae ColegauCymru yn parhau i hwyluso datblygiad y colegau trwy eu Cyfarwyddwr Dwyieithrywdd ac mae cydweithio agos yn digwydd rhwng y Rhwydwaith Dwyieithrywdd a Grŵp yr Hyrwyddwyr Dwyieithrywdd er mwyn cydlynu gwybodaeth a chydgyllunio. Trwy waith cefnogol y Cyfarwyddwr Dwyieithrywdd, rhoddir y cyfle i diwtoriaid meysydd galwedigaethol poblogaidd ddod ynghyd i rannu adnoddau, arfer da a datrys heriau sy'n codi o gyflwyno cyrsiau a modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Llais y Dysgwr Cymru

Yn 2013 cynhaliwyd arolwg blynyddol cyntaf Llais y Dysgwr Cymru, a oedd yn cynnwys addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion yn y gymuned a Chymraeg i Oedolion. Mae'r arolwg yn gofyn am farn dysgwyr ar agweddau o'u profiad o ran cyngor ac arweiniad, y cymorth sydd ar gael, ansawdd yr addysgu a'r dysgu, lles, a boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu. Mae hefyd yn gofyn i ddysgwyr a fyddent yn dymuno dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

neu'n ddwyieithog, ac os ydynt yn cael cynnig i wneud hynny. Nododd bron i hanner yr ymatebwyr (45 y cant) iddynt gael cynnig y cyfle i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog; fodd bynnag, nid yw'r cyflenwad a'r galw yn cyd-fynd. Nododd pumed ran o'r dysgwyr a oedd am ddysgu trwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog na chawsant gynnig i wneud hynny, ac nid oedd nifer sylweddol yn gallu cofio a gynigiwyd dewis iddynt. Mae'r darparwyr wedi derbyn adroddiadau manwl ar ganfyddiadau'r arolwg a disgwylir iddynt gynllunio ymateb, a bydd Estyn yn defnyddio arolwg Llais y Dysgwr Cymru fel ffynhonnell wrth arolygu.

### **Dysgu seiliedig ar waith**

Mae'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd dysgu seiliedig ar waith yn parhau i gefnogi'r sector i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Er hynny gwelir yn Adroddiad Blynyddol Estyn 2012–13 bod thema gyffredin yn parhau: 'Nid yw llawer o ddarparwyr yn mynd ati'n ddigon da i ddadansoddi anghenion Cymraeg dysgwyr, ac nid yw pob un o'r darparwyr yn annog dysgwyr Cymraeg eu hiaith i ymgymryd â hyfforddiant ac asesu yn Gymraeg.'

Rhodddwyd pwyslais ac ymdrech ychwanegol i fynd i'r afael â hyn yn ystod y flwyddyn yn dilyn trafodaethau ar y Cytundeb Cyllideb gyda Phlaid Cymru. O ganlyniad neilltuodd Llywodraeth Cymru £20m y flwyddyn yn ychwanegol dros dair blynedd ariannol (2013–14, 2014–15 a 2015–16) i gryfhau a gwella'r Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio o'r newydd ar brentisiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Ar hyn o bryd mae'r broses gaffael ar gyfer darparu dysgu seiliedig ar waith am y cyfnod 2015–19 yn mynd rhagddo gyda newidiadau i'r fanyleb er mwyn sicrhau bod dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gryfhau yn y rhaglen. Bydd darparwyr yn gweithio tuag at, ac yn cael eu monitro yn erbyn targedau penodol a fydd yn cael eu pennu mewn cynllun gweithredu blynyddol ar yr iaith Gymraeg.

Yn berthnasol i'r sector ôl-16 i gyd, gwnaed newidiadau i gofnod LLWR (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru) o Fedi 2014 er mwyn cofnodi'n well y defnydd o'r Gymraeg wrth addysgu. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu darparwyr ac yn cydnabod gweithgareddau na fu modd eu cofnodi yn y gorffennol.

## Addysg uwch

Mae *Datganiad polisi ar addysg uwch Llywodraeth Cymru*<sup>2</sup>, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013, yn cadarnhau gweledigaeth Llywodraeth Cymru i weld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi datblygiad addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Mae'r datblygiad wedi'i anelu at gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i'r datblygiad fod wedi cael effaith ar nifer y myfyrwyr sy'n astudio elfennau o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn 2011/12 roedd 3.6 y cant o fyfyrwyr yn derbyn rhywfaint o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, gostyngiad bach ers 2010/11 (3.8 y cant). Yn 2011/12 roedd 4,715 o fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn derbyn rhywfaint o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg, gostyniad o 4 y cant ers 2010/11 (4,925). Cynyddodd nifer y staff academaidd a nododd eu bod yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r nifer sydd yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru o 10 y cant o'i gymharu â 2010/11.

### Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi gwneud cynnydd sylweddol ers ei sefydlu yn 2011. Trwy weithgareddau'r Coleg, bydd y ddarpariaeth o gyrsiau addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn cael ei ehangu a'i gryfhau. Bydd y Coleg yn ysgogi ac yn ymateb i'r galw gan fyfyrwyr, ac felly yn cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan y Coleg Gynllun Strategol mewn lle ar gyfer y cyfnod 2011/12 a fydd yn parhau tan 2013/14 ac mae'r Coleg yn gweithio gyda'r ysgolion a'r colegau addysg bellach i gynllunio llwybrau dilyniant.

### Cynllun Staffio Academaidd

Mae'r Cynllun Staffio Academaidd yn darparu cyllid i sefydliadau gyflogi staff academaidd cyfrwng Cymraeg, gan greu darlithwyr newydd a chynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y targed yw i 100 o swyddi academaidd cyfrwng Cymraeg fod mewn lle erbyn

<sup>2</sup> [www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/highereducation/policy-statement/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/highereducation/policy-statement/?skip=1&lang=cy)

blwyddyn academaidd 2015/16. Hyd yn hyn, mae 74 o benodiadau wedi cael eu gwneud. Mae deiliaid y swyddi yn gyfrifol am addysgu a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu meysydd perthnasol. Er mai canolbwyntio ar addysgu yw eu prif gyfrifoldeb, mae disgwyl iddynt hefyd gyfrannu at fywyd deallusol a Chymreig y prifysgolion trwy waith ymchwil, hwyluso cydweithio ag adrannau a sefydliadau eraill, a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn eu meysydd pwnc a'u sefydliadau eu hunain.

### Ysgoloriaethau addysg uwch cyfrwng Cymraeg

Ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2011, mae'r Coleg wedi cynnig cynllun ysgoloriaethau is-raddedig ac ar lefel meistr i annog mwy o fyfyrwyr i astudio'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2013/14 dyfarnwyd 189 o ysgoloriaethau is-raddedig ac 17 o ysgoloriaethau lefel meistr.

### Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg

Cynigiwyd y Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg i fyfyrwyr am y tro cyntaf yn 2013, a llwyddodd 34 o fyfyrwyr i gyflawni'r dystysgrif, gyda chwech yn ennill gradd ardderchog. Mae'r dystysgrif wedi ei datblygu i alluogi myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru i ennill dystysgrif sydd yn dystiolaeth o'u sgiliau iaith, a'u gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer o gyflogwyr eisoes wedi mynegi eu cefnogaeth i'r dystysgrif.

### Dysgu oedolion yn y gymuned

Anogir darparwyr i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, fel yr amlinellir yn y Polisi Dysgu Oedolion yn y Gymuned, *Cyflenwi dysgu cymunedol i Gymru*<sup>3</sup>. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth yn gymysg. Mae rhai awdurdodau wedi cynyddu eu darpariaeth yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda nifer yn nodi cynnydd yn y galw. Mae nifer yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Fenter Iaith Lleol i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fodd bynnag, nid dyma'r achos ar gyfer y sector gyfan ac mae mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn anghyson.

<sup>3</sup> [www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/communitylearning/deliveringlearning/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/communitylearning/deliveringlearning/?skip=1&lang=cy)

Rydym yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i gynyddu eu darpariaeth lle bo hynny'n bosibl trwy rannu arfer da, hyrwyddo sesiynau blasu cyfrwng Cymraeg, a chyflogi mwy o diwtoriaid sydd yn gallu gweithio'n ddwyieithog, er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i ddysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Nod strategol 3:**

**Sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf.**

### **Dilyniant ieithyddol**

Gofynnir i awdurdodau lleol, wrth gwblhau eu CSGAau, nodi eu strategaeth ar gyfer sicrhau parhad addysg cyfrwng Cymraeg wrth i blant drosglwyddo o:

- addysg feithrin nas cynhelir i addysg feithrin a ariennir
- y Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2
- Cyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3
- Cyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4.

Rhoddir pwyslais arbennig ar ddilyniant ieithyddol o'r sector nas cynhelir i ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyflwynodd Mudiad Meithrin gynlluniau gweithredu unigol ar gyfer Cylchoedd Meithrin â chanddynt gyfraddau trosglwyddo isel. Yn ogystal, lle nad yw dilyniant rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 yn foddhaol, gofynnir i'r awdurdodau lleol weithredu i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Ceir gwybodaeth bellach ar y mater o dan Deilliant 2 ar dudalen 29.

### **Cymraeg iaith gyntaf a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol**

Mae ein Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh)<sup>4</sup>, a gyflwynwyd yn statudol ym Medi 2013, yn gosod disgwyliadau blynyddol clir ar gyfer llythrennedd a rhifedd i bob dysgwr o 5 i 14 oed yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn cynorthwyo ysgolion i adnabod sut orau i herio a chynorthwyo eu holl ddysgwyr. Mae ystod eang o ganllawiau a deunyddiau hyfforddiant ar-lein ar gael

<sup>4</sup> [www.learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy](http://www.learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy)

i gynorthwyo athrawon ac uwch reolwyr ysgolion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i ymgorffori'r FfLIRh.

Datblygwyd y Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) i sicrhau fod ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn derbyn y gefnogaeth a'r hyfforddiant er mwyn iddynt weithredu anghenion y FfLIRh yn effeithiol ac i helpu i wella safonau addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd.

Ym mis Mai y llynedd cyflwynwyd Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol statudol i Flynnyddoedd 2 i 9 yn y Gymraeg a'r Saesneg. Lluniwyd y profion er mwyn gallu mesur cynnydd y dysgwyr mewn dull cyson ac i roi darlun cenedlaethol ystyrion o allu dysgwyr.

### **Cymraeg ail iaith**

Sefydlwyd grŵp, dan gadeiryddiaeth Yr Athro Sioned Davies, ym mis Gorffennaf 2012 i adolygu darpariaeth Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol y grŵp ym mis Medi 2013<sup>5</sup>. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 24 o argymhellion. Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun yr adolygiad ehangach o'r cwricwlwm cenedlaethol a threfniadau asesu yng Nghymru, gwaith sy'n mynd rhagddo mewn ymateb i adolygiad cymwysterau a'r drafodaeth ynghylch dyfodol yr iaith Gymraeg.

Bydd Cymraeg ail iaith yn un o'r pynciau a fydd yn cael ei ystyried fel rhan o Gam 2 adolygu'r cwricwlwm cenedlaethol a bydd ystyriaeth o ddichonoldeb ac ymarferoldeb y canlynol yn rhan o'r broses hon:

- cyflwyno continwwm Cymraeg yn lle Rhaglenni Astudio ar wahân ar gyfer Cymraeg a Chymraeg ail iaith
- cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr gaffael iaith wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ehangu profiadau a datblygu sgiliau eraill yn hytrach na dim ond dysgu'r iaith mewn gwersi Cymraeg ail iaith ar wahân
- addasu modelau llwyddiannus o drochi ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg.

<sup>5</sup> [www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/wagreviews/one-lanugae-for-all/?lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/wagreviews/one-lanugae-for-all/?lang=cy)

Yn y cyfamser bydd sawl gweithgaredd o'r Cynllun Gweithredu Cymraeg ail iaith yn parhau, er enghraifft:

- dau glwstwr o ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n gweithio ar brosiect i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 2
- prosiectau ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i sefydlu a chynnal gweithgareddau anffurfiol trwy gyfrwng y Gymraeg i gynyddu'r defnydd o'r iaith tu allan i'r dosbarth Cymraeg
- cyrsiau preswyl ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 sydd â diddordeb mewn astudio Cymraeg ail iaith yn y cyfnod ôl-16 er mwyn cynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith a gwella eu sgiliau iaith.

### **Cymraeg i Oedolion**

Ym mis Gorffennaf 2012, sefydlwyd grŵp i adolygu darparaieth Cymraeg i Oedolion. Cyhoeddwyd adroddiad ac argymhellion y grŵp ym mis Gorffennaf 2013<sup>6</sup>. Cyhoeddodd y Prif Weinidog a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Rhagfyr 2013 eu bod yn derbyn mwyafrif y 24 o argymhellion yn llawn ac mae'r gwaith o wireddu'r argymhellion nawr yn y cyfnod cynllunio.

Mae'r argymhellion yn cynnwys sefydlu endid cenedlaethol i fod yn gyfrifol am arwain y sector yn strategol i'r dyfodol; lleihau nifer y darparwyr o 27 i rhwng 10 ac 14; gwneud newidiadau o ran asesu a chymwysterau; datblygu cwricwlwm cenedlaethol newydd a gwireddu argymhellion ymchwil Prifysgol Caerdydd ar fethodoleg; diffinio rhuglder a pharhau i wella nifer o flaenoriaethau cenedlaethol fel marchnata; Cymraeg yn y Gweithle; Cymraeg i'r Teulu; e-ddysgu; hyfforddiant tiwtoriaid; dysgu anffurfiol a chryfhau'r berthynas rhwng siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

### **Sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle**

Mae'r strategaeth yn cynnwys amcan strategol i hyrwyddo cydnabyddiaeth o'r Gymraeg yn y gweithle ac i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer dysgu'r Gymraeg yn y gweithle. I gyfrannu at wireddu'r amcan hwn mae arolwg o'r angen am sgiliau Cymraeg yn y gweithle wedi ei gwblhau a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar

<sup>6</sup> [www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/wagreviews/review-welsh-for-adults/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/wagreviews/review-welsh-for-adults/?skip=1&lang=cy)



29 Ebrill 2014<sup>7</sup>. Bydd canlyniadau'r arolwg yn dylanwadu ar raglenni a pholisïau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i sicrhau bod y rhaglenni hyn yn cwrdd â galw cyflogwyr am sgiliau yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys rhaglenni a ariennir drwy Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

Mae Uned y Gymraeg mewn Addysg hefyd yn gweithio ar draws Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru i brif ffrydio'r Gymraeg a datblygiad sgiliau Cymraeg o fewn rhaglenni sgiliau.

#### **Nod strategol 4:**

**Sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i gynllunio sy'n darparu nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, ac sy'n meddu ar sgiliau iaith o ansawdd uchel yn y Gymraeg a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu.**

### **Hyfforddiant cychwynnol athrawon**

#### Hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA)

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig cymhellion hyfforddi athrawon fel modd o recriwtio unigolion o'r safon uchaf â dealltwriaeth pwnc fanwl i faes addysgu. Mae'r cymhellion hyn yn cael eu targedu at unigolion sy'n ymgymryd â chysiau hyfforddiant athrawon i raddedigion yn y pynciau sydd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru o ran recriwtio, gan gynnwys y Gymraeg. Yn 2013–14, cynigwyd cymhellion hyd at £15,000, yn ddibynnol ar ddosbarth gradd DU, i hyfforddeion uwchradd. Roedd modd i hyfforddeion cynradd â gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg dderbyn cymhelliant o £4,000 i wella safonau llythrennedd mewn ysgolion cynradd a gynhelir.

Mae'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg hefyd yn cynnig cymhellion a hyfforddiant ychwanegol i hyfforddeion sy'n dilyn cyrsiau uwchradd i raddedigion cymwys drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun yn cynnig cymorth ychwanegol fel modd o wella sgiliau ieithyddol a chodi hyder hyfforddeion i'w galluogi i gymhwyso ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

<sup>7</sup> [www.wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-language-skills-needs-eight-sectors/?lang=cy](http://www.wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-language-skills-needs-eight-sectors/?lang=cy)

Cynhaliwyd adolygiad o hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru yn 2013. Rhoddwyd ystyriaeth i safon a chysondeb dysgu, hyfforddi ac asesu o fewn HCA, a chynnwys y cwrs ei hun. Argymhellodd yr adroddiad, a gyhoeddwyd yn Hydref 2013, bod angen adeiladu capasiti a diwygio'r sector HCA yng Nghymru. Rhagwelir y bydd modd cyflawni hyn drwy ddatblygu system HCA wedi'i seilio ar arfer orau a'i chysylltu â chyd-ddealltwriaeth gref o'r addysgeg gadarn rydym am ei mabwysiadu i bob athro/athrawes yng Nghymru. Mae argymhelliad hefyd i weithredu'r hyfforddiant hwn mewn modd cyson ym mhob canolfan HCA ar draws Cymru.

Er mwyn symud y gwaith hwn yn ei flaen, mae Llywodraeth Cymru wedi penodi ymgynghorydd HCA arbenigol a fydd yn chwarae rhan allweddol mewn cynnig cyngor polisi er mwyn codi safonau a sicrhau cysondeb ar draws y ddarpariaeth. Mae argymhellion yr adolygiad yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwella HCA yng Nghymru yn ei gyfanrwydd ac nid oes argymhellion penodol o ran HCA cyfrwng Cymraeg. Mae'r argymhellion fodd bynnag yn cynnwys y materion canlynol a fydd yn effeithio ar HCA cyfrwng Cymraeg fel rhan o symud HCA yn ei flaen yn ei gyfanrwydd:

- bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo addysgu yn fwy gweithredol fel dewis gyrfa i'r graddedigion gorau oll a'r rheini sy'n newid gyrfa, er mwyn sicrhau bod y proffesiwn yn parhau i adlewyrchu'r gymuned mae'n ei gwasanaethu yng Nghymru, a bod camau yn cael eu cymryd lle bynnag bo hynny'n bosib i wella'r llwybr gyrfa i unigolion dawnus
- bod cymhellion hyfforddi athrawon yn parhau i'w cael eu defnyddio fel modd hyblyg y gellir eu haddasu'n flynyddol er mwyn annog yr ymgeiswyr gorau mewn meysydd penodol o angen.

### Rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, dan arweiniad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), wedi ei wahodd i ystyried oblygiadau cyflwyno gofynion mynediad yn gysylltiedig â'r Gymraeg ac effaith posib cyflwyno gofynion uwch ar gyfer cyrsiau HCA cyfrwng Cymraeg ar recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg. Mae dau faes lle bydd angen dadansoddiad pellach er mwyn gallu llywio darpariaeth HCA cyfrwng Cymraeg:

- yr argymhelliad bod angen gwaith pellach tuag at gyflwyno cymhwyster trothwy o radd B mewn TGAU Cymraeg (neu gyfatebol) gyda chyfnod cyflwyno addas a dadansoddiad llawn o'r effaith bosibl ar recriwtio i gyrsiau HCA

- datblygu ymhellach y Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg arfaethedig gyda'r bwriad o'i gweithredu o fewn dwy flynedd, gyda'r broses wedi'i hwyluso gan y Coleg.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn 2014.

## **Seilwaith a chapasiti cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus**

### Cynllun Sabothol

Mae'r Cynllun Sabothol yn parhau i ddarparu cyfnodau dwys o hyfforddiant iaith a methodoleg i ymarferwyr ar ystod o lefelau ac mewn lleoliadau ar draws Cymru. Cwblhaodd 211 o ymarferwyr gyrsiau'r cynllun rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014.

Fel rhan o werthusiad annibynnol cwmni Arad Research o'r strategaeth, cynhaliwyd adolygiad o effaith y Cynllun Sabothol<sup>8</sup>. Casglwyd barn ymarferwyr a fynychodd gyrsiau'r cynllun rhwng Ionawr 2011 a Rhagfyr 2012, yn ogystal â'u rheolwyr llinell, swyddogion y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol, darparwyr y cynllun a phartneriaid eraill. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad yn ddiweddar, a chafodd yr argymhellion eu bwydo i'r broses o gynllunio dyfodol y cynllun.

Bydd cytundebau cyfredol y cynllun yn dod i ben yn haf 2014. Yn dilyn proses dendro ar ddiwedd 2013, penodwyd darparwyr newydd ym mis Mawrth 2014 i ddarparu cyrsiau'r cynllun am gyfnod o dair mlynedd o fis Medi 2014, gyda'r bwriad o hyfforddi hyd at 238 o ymarferwyr fesul blwyddyn academiaidd.

### Grant y Gymraeg mewn Addysg (GGA)

Yn sgil datblygiad y consortia rhanbarthol, mae Grant y Gymraeg mewn Addysg (GGA) wedi cael ei reoli a'i weinyddu ar lefel ranbarthol ers Ebrill 2013. Darparwyd £5.63m i'r consortia rhanbarthol drwy'r GGA a, gyda chyfraniadau'r awdurdodau lleol, roedd o leiaf £8.4m yn cael ei wario ar weithgareddau sy'n cefnogi cyflawni amcanion cynlluniau strategol yr awdurdodau lleol yn 2013–14, gan gynnwys cefnogaeth y gwasanaethau Athrawon Bro, prosiectau trochi, canolfannau i hwyrddyfodiaid a phrosiectau sy'n anelu at gynyddu cyfraddau dilyniant.

<sup>8</sup> [www.wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-medium-education-strategy/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-medium-education-strategy/?skip=1&lang=cy)

## Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a Grant Amddifadedd Disgyblion

Mae'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion cysylltiedig yn darparu cefnogaeth i ysgolion ar gyfer tair blaenoriaeth genedlaethol – gwella safonau mewn llythrennedd, gwella safonau mewn rhifedd a lleihau effaith tlodi ar ganlyniadau addysgol. Mae'r ddau wedi darparu dros £70m i'r consortia rhanbarthol yn 2013–14 er mwyn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus (DPP), gyda'r nod o fynd i'r afael â'r tair blaenoriaeth hyn ym mhob ysgol, gan gynnwys cefnogi gweithgareddau cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae cant y cant o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ac o leiaf 75 y cant o'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion wedi'u dirprwyo i ysgolion, yn cynyddu i 80 y cant yn 2014–15. Bydd dyraniadau'r Grant Amddifadedd Disgyblion hefyd yn dyblu o £450 i £918 fesul plentyn cymwys yn 2014–15 yn unig.

## Arolwg sgiliau iaith Gymraeg

Er mwyn llunio gwaelodlin o sgiliau Cymraeg ymarferwyr, gofynnwyd i'r pedwar consortia rhanbarthol gynnal arolwg ymysg athrawon a chynorthwywyr yn ystod haf 2013. Bwriad yr arolwg hwn oedd llunio darlun cyson cenedlaethol o sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr ar draws Cymru a'u hanghenion hyfforddiant. Casglwyd data ar lefel ysgol ar ran mwy na 31,000 o athrawon a chynorthwywyr dosbarth cynradd ac uwchradd. Mae canlyniadau'r arolwg eisoes wedi cael eu defnyddio wrth gynllunio dyfodol y Cynllun Sabothol. Mae canllawiau'r GGA 2014–15 hefyd yn nodi bod disgwyl i'r consortia rhanbarthol ddangos bod ystyriaeth wedi cael ei roi i ganlyniadau'r arolwg wrth gynllunio gweithgareddau'r grant ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

## Hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar

Gan adeiladu ar yr hyfforddiant a ddarparwyd gan Raglen Geiriau Bach o 2004 i 2013, datblygwyd rhaglen hyfforddiant newydd yn ystod hydref 2013 ar gyfer ymarferwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir cyfrwng Saesneg. Mae 'Un, Dau, Tri – Hwyl a Sbri' yn gwrs 12 awr sy'n anelu at roi sgiliau iaith Gymraeg sylfaenol i'r ymarferwyr ddefnyddio yn eu lleoliadau.

Mae cytundeb wedi ei ddyfarnu i gonsortium o'r chwe chanolfan Cymraeg i Oedolion, dan arweiniad Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg, i ddarparu'r cwrs mewn lleoliadau ar draws Cymru.

Cwblhaodd y grwpiau cyntaf o ymarferwyr gyrsiau yng Nghaerdydd, Casnewydd a Wrecsam ym Mawrth 2014, a bydd disgwyl i dros 120 o ymarferwyr gwblhau'r cwrs yn flynyddol dros y tair mlynedd nesaf.

Gweler tudalen 6 am wybodaeth am rôl NDNA Cymru a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru yn y rhaglen hyfforddiant.

**Nod strategol 5:**  
**Gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.**

### **Cymwysterau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg**

Nododd Argymhelliad 6 yr *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru* (2012): 'Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau llwybrau dilyniant clir drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai cymwysterau TGAU a Safon Uwch barhau i gael eu cynnig, fel y maent ar hyn o bryd, yn Gymraeg ac yn Saesneg, am yr un gost i ddarparwyr. Erbyn 2015, dylent fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yr un pryd. Dylai'r cymwysterau galwedigaethol hynny y teimlid eu bod yn fwyaf perthnasol ac o'r gwerth mwyaf i ddysgwyr 14 i 19 oed ac i economi Cymru hefyd fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yr un pryd ac am yr un gost i ddarparwyr'.

#### TGAU a Safon Uwch

Yn ystod 2013–14, dyfarnwyd grantiau i AQA, OCR Pearson a CBAC i ddarparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Cynigiwyd cyfanswm o bum cymhwyster ar draws y tri sefydliad sydd wedi'u lleoli yn Lloegr. Mae holl ddarpariaeth CBAC ar gael yn y ddwy iaith.

Wrth i TGAU newydd gael eu cyflwyno o 2015, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod manylebau ar gael ar yr un pryd yn y Gymraeg a'r Saesneg. CBAC yw'r unig sefydliad dyfarnu a fydd yn cynnig y TGAU newydd yng Nghymru a bydd manylebau ar gael yn y ddwy iaith ar yr un pryd, yn unol ag argymhelliad yr adolygiad.

O ran manylebau pynciau nas cynigir gan CBAC, byddwn yn parhau i gynnig cefnogaeth ariannol i'r sefydliadau dyfarnu yn Lloegr, yn unol â'r drefn ar hyn o bryd, i sicrhau bod y pynciau hynny ar gael yn Gymraeg lle bo galw.

Rydym yn ymroddedig i sicrhau y bydd y cymwysterau Safon Uwch

Gyfrannol a Safon Uwch newydd hefyd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a byddwn yn parhau i weithio gyda'r sefydliadau dyfarnu (yn unol â'r drefn ar hyn o bryd) i sicrhau bod o leiaf un fanyleb ym mhob pwnc ar gael yn ddwyieithog, yn unol â'r galw.

### Cymwysterau galwedigaethol

Yn ystod 2013–14, dyfarnwyd grantiau i ddau sefydliad dyfarnu. Roedd un grant i sicrhau dilyniant i ddarpariaeth o 10 cyfres o gymwysterau wedi'u hanelu at ymgeiswyr Cyfnod Allweddol 4. Roedd y cymwysterau hyn yn cael eu tynnu'n ôl yn gynnar, ac felly rhoddwyd cefnogaeth i sicrhau y byddai'r cymwysterau a fyddai'n dod yn eu lle ar gael yn y Gymraeg. Dyfarnwyd y grant arall i ddarparu NVQ mewn Rheolaeth trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cefnogi prentisiaethau cyfrwng Cymraeg.

Rydym yn gweithio ar brosesau newydd ar gyfer adolygu cymwysterau galwedigaethol sydd yn gymwys ar gyfer eu cyllido yng Nghymru, ac mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i anghenion cyfrwng Cymraeg.

## Adnoddau addysgu a dysgu

### Comisiynu adnoddau

Ariannwyd 46 o brosiectau i gynhyrchu adnoddau addysgu a dysgu Cymraeg a dwyieithog, gan gwmpasu ystod o bynciau cwricwlwm 3–19 a Chymraeg i Oedolion. Mae'r prosiectau yn cynnwys datblygu adnoddau mewn sawl fformat i gwrdd â'r angen am fwy o adnoddau yn ddigidol, gan gynnwys datblygu aps.

Ar ôl ymgynghori ag ysgolion, colegau a chyhoeddwy'r i gasglu tystiolaeth o'r anghenion tybiedig ym Mai 2013, cynhaliwyd saith panel adnabod anghenion yn ystod y flwyddyn. Bu'r paneli yn ystyried y syniadau a dderbyniwyd ac yn blaenoriaethu prosiectau ar gyfer eu cynnwys yn y rhaglen gomisiynu.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y gwaith o wella'r broses gomisiynu i sicrhau ei heffeithlonrwydd a'i gwerth am arian. Cynhaliwyd ymchwil i'r broses o adnabod anghenion a chasglwyd gwybodaeth am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o'r broses a sut gellid ei gwella. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella marchnata a chodi ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael. Ategwyd at y marchnata sy'n cael ei wneud gan y cyhoeddwy'r eu hunain drwy ddefnyddio cyfrifon Twitter a Facebook yr Adran Addysg a Sgiliau i godi ymwybyddiaeth am adnoddau newydd.

## Y Termiadur Addysg

Mae'r geiriadur termau dwyieithog a ddatblygwyd gan Uned Dechnoleg, Prifysgol Bangor, wedi bod ar gael ar-lein er yn gynnar yn 2012 ar [www.termiaduraddysg.org](http://www.termiaduraddysg.org). Yn y ddwy flynedd ers hynny mae'r gronfa ddata, sy'n cynnwys tua 60,000 o dermau, wedi ei chwilio bron i filiwn o weithiau. Mae ap hefyd ar gael ar gyfer dyfeisiadau symudol ac mae hwn bellach wedi'i osod ar dros 20,000 o ddyfeisiadau. Gan fod galw clir am y gwasanaeth, mae grant am dair blynedd pellach wedi ei ddyrannu i Brifysgol Bangor er mwyn ei ddatblygu ymhellach.

## Hwb

Mae Hwb<sup>9</sup> yn Ystorfa Cynnwys Digidol Cenedlaethol sy'n gartref i gasgliad o adnoddau digidol gan ystod eang o gyfranwyr. Mae Hwb hefyd yn cael ei ddatblygu i fod yn lwyfan i gydweithio a fydd yn hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol ar-lein ar draws Cymru.

Mae Hwb+ yn darparu llwyfan dysgu unigol ar gyfer pob ysgol yng Nghymru sy'n gofyn amdano. Mae llwyfan dysgu yn gasgliad o offer a gwasanaethau sy'n hwyluso dysgu digidol. Mae llwyfan Hwb+ eisoes ar gael i dros 800 o ysgolion (ers Ionawr 2014), a bydd gweddill yr ysgolion yng Nghymru yn ei dderbyn erbyn Gorffennaf 2014.

Mae Tîm Cynnwys Hwb yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod cynnwys perthnasol yn cael ei hyrwyddo trwy'r ardal 'Canfod a defnyddio'. Mae cynnwys newydd yn cael ei uwchlwytho yn rheolaidd a rhoddir sylw iddynt yn yr adran 'Adnoddau diweddaraf'. Mae cynnwys newydd, gan gynnwys adnoddau gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru ac adnoddau ar gyfer dysgwyr Cymraeg ail iaith, bellach ar gael.

---

<sup>9</sup> Gellir cyrchu Hwb a Hwb+ trwy [www.hwb.cymru.gov.uk](http://www.hwb.cymru.gov.uk)

Yn ogystal â hyn, mae Tîm Cynnwys Hwb yn gweithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol i adnabod cynnwys sy'n dangos arfer da ac sy'n cael ei ddefnyddio ar draws Cymru. Mae'r prif ffocws ar lythrennedd a rhifedd, tra eu bod hefyd yn edrych ar wella argaeledd adnoddau iaith Gymraeg.

### **Nod strategol 6:**

**Cyfrannu at feithrin ac atgyfnerthu sgiliau iaith yn y Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned.**

## **Cymraeg i'r Teulu**

### Cyrsiau iaith Gymraeg

Mae cwrs penodol Cymraeg i'r Teulu yn parhau i gael ei ddarparu mewn lleoliadau ledled Cymru. Yn ogystal, yn ystod 2013–14 cynigiwyd amrywiaeth o weithgareddau dysgu anffurfiol, gan gynnwys penwythnos blynyddol Cymraeg i'r Teulu yn Llangrannog, a chystadleuaeth Cymraeg i'r Teulu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

### Twf

Mae swyddogion maes Twf wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion drwy farchnata'r cyrsiau Cymraeg o'r Crud ymhlith rhieni/gofalwyr plant o fewn rhwydweithiau Twf. Mae'r swyddogion maes hefyd wedi parhau i gynnig cefnogaeth ac anogaeth i rieni/gofalwyr sy'n rhan o'r cyrsiau drwy sesiynau Amser Twf.

Mae Twf wedi parhau i gynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i famau beichiog a newydd a'u teuluoedd yn ogystal â'r sector iechyd ynglŷn a siarad Cymraeg ar yr aelwyd a manteision dwyieithrwydd. Gwneir hyn drwy dri chyfrwng: rhwydwaith o swyddogion maes, gwaith gyda'r sector iechyd a thrwy adnoddau marchnata. Yn ystod 2013–14 mae swyddogion maes Twf wedi cynnal dros 9,000 o gysylltiadau uniongyrchol gyda rhieni/gofalwyr ar draws Cymru er mwyn trosglwyddo negeseuon ynglŷn â siarad Cymraeg ar yr aelwyd a manteision dwyieithrwydd.

### Tyfu gyda'r Gymraeg

Prif nod Prosiect Tyfu gyda'r Gymraeg yw cefnogi teuluoedd i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant. Gweithredir y prosiect peilot yn



ardaloedd Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerffili. Penodwyd swyddogion datblygu ym mis Awst ac yn ystod y flwyddyn bu gwaith mapio a chreu cysylltiadau gyda rhieni/gofalwyr yn y tair ardal er mwyn adnabod cyfleoedd i gydweithio yn ogystal ag adnabod anghenion teuluoedd lleol. Cynhaliwyd sesiynau rheolaidd gyda theuluoedd ym mhob grŵp oedran yn cynnwys sesiynau stori a chân, sesiynau mam a'i plentyn ac Amser Tyfu er mwyn eu cefnogi i gyflwyno'r Gymraeg. Yn ogystal mae partneriaethau wedi'u datblygu gyda darparwyr gofal, cylchoedd meithrin, penaethiaid ysgolion cynradd, awdurdodau lleol a'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion er mwyn adeiladu ar a chefnogi'r ddarpariaeth bresennol.

### **Cyfleoedd anffurfiol a chyfleoedd heb fod yn ffurfiol mewn lleoliadau addysg**

Gofynnir i awdurdodau lleol amlinellu yn eu CSGAau sut maent yn cefnogi ysgolion i ymestyn y defnydd anffurfiol o'r Gymraeg a gallant ddefnyddio GGA i gefnogi'r gweithgareddau. Cytundebwyd â Chanolfan Peniarth i weithio gydag 11 o ysgolion uwchradd i'w cefnogi i gyflwyno polisi ysgol gyfan ar ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg o fewn ysgolion. Cynhaliwyd gweithdy cenedlaethol i archwilio'r gwahanol ddulliau o gynllunio yn seiliedig ar ganllawiau drafft ar gyfer strategaethau ysgol gyfan. Roedd y gweithdy yn cynnwys staff o'r consortia rhanbarthol, sydd yn cael eu hannog i gefnogi ysgolion i fabwysiadu prosesau cynllunio digonol.

### **Cyfleoedd anffurfiol a chyfleoedd heb fod yn ffurfiol yn y gymuned**

#### **Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc**

Mae'r Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc, sydd yn weithredol ers 2007, bellach yn cael ei gynnal mewn 30 o ysgolion uwchradd ar draws Cymru. Pwrpas y prosiect yw cynyddu defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg. Mae'r prosiect yn cael ei weithredu trwy bartneriaeth rhwng Trywydd Cyf ac Urdd Gobaith Cymru, ac mae dysgwyr Blynyddoedd 11 a 12 yn ymgeisio am gyllid i gynnal gweithgareddau amrywiol ar gyfer grŵp oedran penodol o fewn eu hysgol (fel arfer dysgwyr iau). Y dysgwyr eu hunain felly sy'n cymryd y cyfrifoldeb o hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol yn eu hysgolion, gan fod tystiolaeth yn dangos fod pobl ifanc yn ymateb yn gadarnhaol i arweiniad/mewnbwn cyfoedion. Yn 2013–14 cynhaliwyd detholiad o'r prosiectau hyn (chwech o'r 30 ysgol sy'n

cymryd rhan) yn y gymuned er mwyn dylanwadu ar iaith y gymuned yn ehangach.

### Urdd Gobaith Cymru

Derbyniodd yr Urdd grant gan Lywodraeth Cymru yn 2013–14 er mwyn cynnig cyfleoedd cymdeithasol i'w 50,000 o aelodau. Cofrestrodd 962 o ganghennau, sydd yn cynnwys aelwydydd, ysgolion arbennig, ysgolion cynradd ac uwchradd, gyda'r Urdd yn 2013–14. Mae'r Urdd yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymdeithasu boed yn y maes chwaraeon, perfformio, technoleg neu'r Eisteddfod i enwi rhai. Yn ogystal â hyn, mae'r Urdd wedi bod yn gweithredu'r Prosiect Gweithio yn Gymraeg sy'n cysylltu pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu datgysylltu o fyd addysg a gwaith gyda chyflogwyr Cymraeg. Bu 914 o bobl ifanc yn rhan o'r cynllun trwy Gymru a chafodd 253 ohonynt achrediad i gyd-fynd â'r profiad.

### Gwasanaeth Ieuenctid

Un o'r prif ddyheadau ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yw dyfodiad rhwydwaith o 'weithwyr arweiniol' sydd yn darparu dilyniant o gefnogaeth a chyswllt i bobl ifanc bregus ac yn eu cefnogi i ymwneud â gwasanaethau cefnogi ehangach a chael mynediad iddynt. Mae'r fframwaith yn disgrifio sut y gall ystod eang o unigolion mewn gwahanol fathau o sefydliadau ymgymryd â swyddogaethau'r gweithwyr arweiniol. Mae swyddogion ieuenctid wedi'u hyfforddi ac mewn sefyllfa dda i gyflenwi'r rôl gweithiwr arweiniol ar gyfer nifer o bobl ifanc sydd yn cael eu hadnabod i dderbyn cefnogaeth er mwyn osgoi ymddieithrio o'r gyfundrefn addysg a hyfforddiant, neu er mwyn eu cefnogi i ail-gysylltu. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol ystyried anghenion ieithyddol a dewisiadau unigolion trwy gydol y broses o ddatblygu a gweithredu cynlluniau lleol, gan gynnwys y sgiliau, gallu a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer y rolau, gan fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn darpariaeth iaith Gymraeg.

Dangosodd Awdit y Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol 2012–13 fod cyfanswm o 253 o brosiectau diwylliant Cymreig wedi cael eu darparu gyda chyfanswm o 16,929 o bobl ifanc yn eu mynychu, a bod cyfanswm o 374 o brosiectau iaith Gymraeg wedi cael eu darparu gyda chyfanswm o 15,084 o bobl ifanc yn eu mynychu.

## Cymraeg fel iaith ychwanegol

Fe wnaeth y Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig gynnal ymchwil i ddeall y galw cyfredol am, ac argaeledd, cefnogaeth Cymraeg fel iaith Ychwanegol (CIY) ar gyfer dysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a Chanolfannau Iaith i Hwyrddyfodiaid. Defnyddir CIY i gyfeirio at y sefyllfa 'lle bo gan ddisgybl iaith gyntaf nad yw'n Gymraeg na Saesneg ond lle mae'n dilyn addysg cyfrwng Cymraeg ac felly angen cymorth er mwyn mynd at y cwricwlwm cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg'. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ebrill 2014<sup>10</sup>.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod 'diffyg eglurder am y gefnogaeth iaith Gymraeg' a ddarperir ar hyn o bryd i ddysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae hefyd ansicrwydd ynghylch y galw am gefnogaeth o'r fath, am nad yw'r data a gesglir ar hyn o bryd trwy'r CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) a ffynonellau eraill yn adnabod lefel y galw am gefnogaeth. Mae hyn felly yn codi cwestiynau ynghylch yr angen am wasanaeth CIY wedi'i ddiffinio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd yn debyg i'r gwasanaeth Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY) sydd eisoes wedi'i sefydlu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru.

---

<sup>10</sup> [www.wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-additional-language/?lang=cy](http://www.wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-additional-language/?lang=cy)

# Targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, adroddiad Mawrth 2014

<b>Deilliant 1</b> Mwy o ddysgwyr 7 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.			
Dangosydd	Gwaelodlin	Targedau	
	2009	2015	2020
Canran y dysgwyr Blwyddyn 2 a asesir yn y Gymraeg (iaith gyntaf)	21%	25%	30%

## Dangosydd Deilliant 1

	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013
<b>Nifer</b>	6,538	6,919	6,621	6,599	6,428	6,524	6,365	6,560	6,728	7,229	7,468
<b>Carfan</b>	34,446	35,612	33,750	33,000	31,611	31,116	30,329	30,061	30,655	32,960	33,398
<b>%</b>	19.0%	19.4%	19.6%	20.0%	20.3%	21.0%	21.0%	21.8%	21.9%	21.9%	22.4%

Cafodd bron 1,000 yn fwy o blant saith oed eu hasesu yn Gymraeg yn 2013 o gymharu â degawd yn ôl, gan gynrychioli cynnydd o 14.1 y cant o gymharu â'r ffigur yn 2003, sef 6,538. Mae cyfanswm y garfan bellach yn debyg iawn i'r hyn a welwyd ddegawd yn ôl, ac mae'r cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf wedi gwrthbwysu'r dirywiad a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae canran y garfan a asesir yn Gymraeg bellach wedi cynyddu i'w lefel uchaf erioed, gyda'r ffigur yn aros yr un fath dros gyfnod 2010–12.

## Consortia rhanbarthol

Mae pedwar consortiwm rhanbarthol bellach yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r agweddau ar y gwaith i wella ysgolion. Dengys y tabl newidiadau yn nifer y plant saith oed a aseswyd yn Gymraeg dros y degawd ar lefel ranbarthol.

	2003 (Nifer)	2013 (Nifer)	2003–13 (Nifer)	2003 %	2013 %	2003–13 %
Gogledd Cymru	2,455	2,631	176	32.6	35.5	2.9
De-orllewin a Chanolbarth Cymru	2,435	2,686	251	25.4	29.1	3.7
Canolbarth y De	1,208	1,538	330	11.7	15.1	3.4
De-ddwyrain Cymru	440	612	172	6.4	9.5	3.1

Mae'r ffigurau'n dangos yn glir y cynnydd parhaus mewn addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru dros y degawd. O ran y nifer a aseswyd yn Gymraeg, mae twf cadarn iawn wedi parhau yng Nghanolbarth y De (27.3 y cant) a De-ddwyrain Cymru (39.1 y cant). Gwelwyd cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yng nghanran y ddau gonsortiw arall hefyd, gan ddechrau o waelodlin llawer uwch.

## Awdurdodau lleol

Yn ystod y degawd 2003–13, gwelwyd y cynnydd rhifol mwyaf yng Nghaerdydd a'r twf canrannol mwyaf yn Sir Ddinbych. Gwelwyd gostyngiad mewn dau awdurdod yn nhermau canrannol a rhifol (Ynys Môn a Chonwy).

	2003 (Nifer)	2013 (Nifer)	2003–13 (Nifer)	2003 %	2013 %	2003–13 %
Ynys Môn	534	468	-66	71.1	69.7	-1.4
Gwynedd	1,201	1,289	88	94.7	97.5	2.8
Conwy	270	257	-13	23.2	22.9	-0.3
Sir Ddinbych	207	285	78	19.8	28.1	8.3
Sir y Fflint	103	141	38	5.6	8.4	2.8
Wrecsam	140	191	51	9.6	11.9	2.3
Powys	196	247	51	13.4	18.8	5.5
Ceredigion	498	477	-21	74.3	76.4	2.1
Sir Benfro	251	249	-2	18.8	19.1	0.2
Sir Gaerfyrddin	1,009	1,093	84	51.2	55.6	4.3
Abertawe	240	359	119	9.5	14.2	4.8
Castell-nedd Port Talbot	241	261	20	14.9	17.4	2.5
Pen-y-bont ar Ogwr	124	137	13	7.9	9.2	1.3
Bro Morgannwg	151	187	36	9.8	12.6	2.9
Rhondda Cynon Taf	475	541	66	17.4	19.9	2.6
Merthyr Tudful	83	87	4	11.3	13.1	1.8
Caerdydd	375	586	211	1.0	15.2	5.2
Caerffili	252	354	102	11.5	17.4	5.8
Blaenau Gwent	32	41	9	3.8	5.2	1.4
Torfaen	79	87	8	7.1	8.0	0.9
Sir Fynwy	20	43	23	2.1	4.9	2.9
Casnewydd	57	87	30	3.2	5.3	2.1

## Cyfrifiad (2011)

Mae'n ddiddorol cymharu ffigurau cyfrifiad 2011 ar gyfer plant 5–9 sy'n 'siarad 'Cymraeg' gyda data asesu'r ysgolion ar gyfer dysgwyr saith oed yn 2011. Mae'r tabl isod yn rhestru'r siroedd yn nhrefn y data asesu ynghyd â ffigur y cyfrifiad, gyda'r golofn olaf yn dangos y gymhareb rhwng y data asesu a data'r cyfrifiad. Yn y pedair sir â'r lefel uchaf o blant saith oed a asesir yn Gymraeg (Gwynedd, Ceredigion, Ynys Môn a Chaerfyrddin), mae'r gymhareb bron yn un, gan ddangos cyfatebiaeth agos rhwng y ddwy set o ddata. Yn y pedair sir â'r lefel isaf o blant saith oed a asesir yn Gymraeg (Casnewydd, Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Sir y Fflint), mae'r gymhareb bron iawn yn 0.1, gan ddangos gwahaniaeth mawr rhwng y ddwy set o ddata.

Yn y siroedd hyn ar hyd ffin ddwyreiniol y wlad, mae'n amlwg y bydd y mwyafrif helaeth o'r plant y mae eu rhieni/gofalwyr yn eu hystyried yn siaradwyr Cymraeg mewn gwirionedd yn dilyn Rhaglen Astudio Cymraeg ail iaith ac na fyddant yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelir patrwm tebyg wrth gymharu data asesu Cyfnod Allweddol 3 gyda ffigur y cyfrifiad ar gyfer plant 10 i 14 oed.

	Asesiad (2011) 7 oed (%)	Cyfrifiad (2011) 5–9 oed (%)	Asesiad/ cyfrifiad
Gwynedd	98.4	91.4	1.1
Ceredigion	73.1	81.6	0.9
Ynys Môn	68.8	78.9	0.9
Sir Gaerfyrddin	55.6	60.0	0.9
Conwy	26.1	47.9	0.5
Sir Ddinbych	25.0	45.3	0.6
Sir Benfro	21.2	40.7	0.5
Rhondda Cynon Taf	20.8	30.7	0.7
Caerffili	17.3	33.4	0.5
Powys	16.8	41.2	0.4
Caerdydd	15.9	27.1	0.6
Castell-nedd Port Talbot	15.3	29.7	0.5
Bro Morgannwg	13.7	28.5	0.5
Merthyr Tudful	12.8	21.4	0.6
Abertawe	12.6	25.7	0.5
Wrecsam	11.7	29.5	0.4
Torfaen	9.4	38.0	0.2
Pen-y-bont ar Ogwr	8.9	24.3	0.4
Sir y Fflint	5.7	33.1	0.2

	Asesiad (2011) 7 oed (%)	Cyfrifiad (2011) 5–9 oed (%)	Asesiad/ cyfrifiad
Blaenau Gwent	4.7	30.5	0.2
Sir Fynwy	4.4	40.3	0.1
Casnewydd	3.9	34.8	0.1
<b>Cymru</b>	<b>21.9</b>	<b>38.2</b>	<b>0.6</b>

## Deilliant 2

Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Dangosydd	Gwaelodlin	Targedau	
	2009	2015	2020
Canran y dysgwyr Blwyddyn 9 a asesir yn Gymraeg (iaith gyntaf)	16%	19%	23%

## Dangosydd Deilliant 2

2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013
14.2%	14.4%	14.4%	15.7%	15.3%	16.0%	15.9%	16.0%	16.3%	16.8%	17.0%

Diben y targed hwn yw sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn parhau i astudio Cymraeg fel iaith gyntaf o saith oed i 11 oed ac yna 13 oed. Ledled Cymru, gwelir dilyniant ieithyddol da iawn ymhlith dysgwyr rhwng saith ac 11 oed gyda'r garfan a asesir yn 11 oed dros 97 y cant o'r hyn a aseswyd bedair blynedd yn flaenorol, yn saith oed. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa yn wahanol iawn ymhlith dysgwyr rhwng 11 a 13 oed.

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn edrych yn ôl ar y garfan a gyrhaeddodd Flwyddyn 9 yn 2013, i'r adeg pan oeddent yn 11 oed (Blwyddyn 6, 2010), gan ddangos y niferoedd a aseswyd yn Gymraeg iaith gyntaf ar gyfer y blynyddoedd hynny. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys ffigurau tebyg ar gyfer carfannau blaenorol. Mae cymharu ffigurau consortia yn ddull mwy ystyrlon nag ystyried awdurdodau unigol gan fod y data hwn yn seiliedig ar ysgolion, ac mae nifer sylweddol o ddysgwyr yn croesi ffiniau awdurdodau lleol wrth symud i'r ysgol uwchradd.

Consortia	Blwyddyn 6 2010	Blwyddyn 9 2013	BI 6-9 2010-13	BI 6-9 2009-12	BI 6-9 2008-11	BI 6-9 2007-10
Ynys Môn	556	432				
Gwynedd	1,272	1,095				
Conwy	250	201				
Sir Ddinbych	241	258				
Sir y Fflint	102	96				
Wrecsam	134	136				
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>2,555</b>	<b>2,209</b>	<b>-346</b>	<b>-294</b>	<b>-574</b>	<b>-565</b>
Powys	223	183				
Ceredigion	500	461				
Sir Benfro	266	174				
Sir Gaerfyrddin	914	726				
Abertawe	227	226				
Castell-nedd Port Talbot	229	159				
<b>De-orllewin a Chanolbarth Cymru</b>	<b>2,359</b>	<b>1,929</b>	<b>-430</b>	<b>-460</b>	<b>-509</b>	<b>-523</b>
Pen-y-bont ar Ogwr	111	84				
Bro Morgannwg	157	147				
Rhondda Cynon Taf	457	495				
Merthyr Tydful	69	0				
Caerdydd	405	382				
<b>Canolbarth y De</b>	<b>1,199</b>	<b>1,108</b>	<b>-91</b>	<b>-73</b>	<b>-181</b>	<b>-112</b>
Caerffili	245	236				
Blaenau Gwent	40	0				
Torfaen	80	186				
Sir Fynwy	32	0				
Casnewydd	47	0				
<b>De-ddwyrain Cymru</b>	<b>444</b>	<b>422</b>	<b>-22</b>	<b>-19</b>	<b>-24</b>	<b>-61</b>
<b>Cymru</b>	<b>6,558</b>	<b>5,668</b>	<b>-890</b>	<b>-846</b>	<b>-1,288</b>	<b>-1,261</b>

Gwelwyd gwelliant sylweddol yn y ffigurau hyn y llynedd, ac er bod y gwelliant hwn wedi'i gynnal, ni fu unrhyw gynnydd pellach. Mae'n wir o hyd fod bron 900 o ddysgwyr (13.6 y cant o'r cyfanswm) a asesir yn Gymraeg iaith gyntaf pan fyddant yn 11 oed, nad ydynt yn cael eu hasesu yn yr iaith honno pan fyddant yn 13 oed. Er mwyn cyflawni targed 2015, bydd angen lleihau nifer y dysgwyr a gollir ledled Cymru gyfan rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 9 i tua 675 o ddysgwyr. Erys yr her yn y ddau gonsortiw â'r niferoedd uchaf yng Nghyfnod Allweddol 2, ac yn yr ardaloedd awdurdod lleol penodol o fewn y consortia hyn, fel Sir Gaerfyrddin.



### Deilliant 3

Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dangosyddion	Gwaelodlin	Targedau	
	2009	2015	2020
<b>3a.</b> Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg*	80.9%	84%	88%
<b>3b.</b> Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg*	58.4%	62%	68%

\* heb gynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf a Llenyddiaeth Gymraeg; TGAU cymhwysol a Gwyddoniaeth Ddwbl yn cyfrif fel 2; cyrsiau byr yn cyfrif fel 1; yn seiliedig ar ddata CBAC yn unig.

Dangosydd	2010	2011	2012	2013
<b>3a.</b> O leiaf dau bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg	79.5%	81.0%	85.3%	81.6%
<b>3b.</b> O leiaf bum pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg	59.7%	62.2%	64.9%	55.5%

Cyflawnwyd targed 2015 ar gyfer y ddau ddangosydd yn 2012. Yn anffodus, mae ffigurau eleni yn cael eu heffeithio gan niferoedd cynyddol y dysgwyr sy'n astudio pynciau galwedigaethol fel cyrsiau BTEC. Er enghraifft, cofrestrwyd 32,500 o ddysgwyr ar gyrsiau BTEC yn 2013 o gymharu ag 11,900 yn 2011. Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu hasesu'n barhaus ac ni chaiff data cyfrwng Cymraeg eu casglu. Gan fod rhai o'r cymwysterau hyn yn cyfateb ar hyn o bryd i fwy nag un cymhwyster TGAU cyfatebol, mae'n llawer anoddach i lawer o ddysgwyr astudio pum cymhwyster TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Deilliant 4

Mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.

Dangosyddion	Gwaelodlin	Targedau	
Gweithgareddau addysg myfyrwyr yn ôl cyfrwng addysgu (LA26)*	2007/08 CC+D**	2015 CC+D**	2020 CC+D**
Ysgolion	14.9%	18%	20%
Sefydliadau addysg bellach	4.7%	7%	10%
Dysgu seiliedig ar waith	1.4%	2.5%	4%

\* Ac eithrio addysg iaith Gymraeg

\*\* CC = Cyfrwng Cymraeg, D = Dwyieithog

Gweithgareddau addysg myfyrwyr yn ôl cyfrwng addysgu (LA26)	2008/09* CC+D	2009/10* CC+D	2010/11 CC+D	2011/12 CC+D	2012/13 CC+D
Ysgolion	17.0%	17.1%	21.0%	17.4%	20.1%
Sefydliadau addysg bellach	6.1%	6.2%	5.7%	6.7%	8.4%
Dysgu seiliedig ar waith	1.8%	1.5%	3.0%	3.9%	3.6%

\* Cyn 2010/11, roedd data ar gyfer dysgu seiliedig ar waith wedi'i ddarparu gan sefydliadau addysg bellach yn cael ei gategoreiddio o dan 'Sefydliadau addysg bellach'. Ers 2010/11 mae'r data yma wedi'i gategoreiddio o dan 'Dysgu seiliedig ar waith'.

Mae'r data hyn yn llywio'r broses o ariannu darpariaeth 16–19 ac yn mesur 'gweithgareddau addysgu' yr ymgymerir ag ef yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Felly, ni ellir cymharu'r ffigurau'n uniongyrchol â'r data ar ddysgwyr unigol y mae Deilliannau 1–3 yn seiliedig arnynt. Cyflawnwyd targed 2020 ar gyfer ysgolion eisoes, ac mae'r data ar gyfer colegau bellach yn agosáu at y ffigur targed. Dylai'r broses o uno colegau i greu unedau mwy o faint gynnig rhagor o gyfleoedd ac arbedion maint i ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y dyfodol.

Mae'n ddiddorol cymharu'r ffigurau ar gyfer 'gweithgareddau addysgu' mewn ysgolion gyda'r ffigurau ar gyfer nifer y dysgwyr sy'n dilyn cwrs Safon Uwch. Mae'r tabl yn dangos nifer y dysgwyr sy'n dilyn cwrs A2 cyfrwng Cymraeg fel canran o'r holl ddysgwyr sy'n dilyn cwrs A2.

Ysgolion	2011	2012	2013
Canran y dysgwyr sy'n dilyn cwrs A2 cyfrwng Cymraeg	11.8%	12.3%	11.7%

Mae'n debygol bod y data hyn yn fesur mwy cywir o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wirioneddol mewn ysgolion na'r ffigurau heb eu dilysu ar gyfer 'gweithgareddau addysgu'. Defnyddir y mesur hwn hefyd yn y dyfodol i olrhain darpariaeth cyfrwng Cymraeg 16–19 mewn ysgolion.

## Deilliant 5

Mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg.

Dangosyddion	Gwaelodlin	Targedau	
	2009	2015	2020
<b>5a.</b> Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch Iaith Gyntaf fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, ddwy flynedd yn gynharach	6.7%	7%	8%
<b>5b.</b> Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch Ail Iaith fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg Ail Iaith cwrs byr a chwrs llawn, ddwy flynedd yn gynharach	3.0%	3.5%	4%

### 2010: Dangosydd 5a – Iaith Gyntaf

	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013
<b>Dangosydd</b>	7.9%	8.2%	7.7%	7.4%	7.0%	6.7%	6.7%	6.8%	5.5%	5.9%
<b>Nifer</b>	353	402	387	377	364	345	363	357	303	315

### 2010: Dangosydd 5b – Ail Iaith

	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013
<b>Dangosydd</b>	2.9%	2.7%	2.8%	2.5%	2.9%	2.9%	2.4%	2.6%	2.3%	1.9%
<b>Nifer</b>	559	517	562	460	574	593	497	542	511	434

\* mae data o 2004 i 2008 yn seiliedig ar ddata CBAC; mae data 2009 ymlaen yn seiliedig ar ddata Llywodraeth Cymru.

Er mwyn rhoi'r strategaeth ar waith yn llwyddiannus mae angen cyflenwad digonol o raddedigion prifysgol yn y Gymraeg, a hynny o gronfa o ddysgwyr sydd wedi astudio Cymraeg Safon Uwch. Nod y deilliant hwn felly yw atal ac yn y pen draw wrth-droi'r gostyngiad a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Gwelwyd cynnydd cyson mewn niferoedd TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf dros y degawd (o tua 5,000 i 5,600) tra bod niferoedd Safon Uwch wedi aros yr un fath neu wedi gostwng yn araf. Nid yw canran y dysgwyr TGAU sy'n mynd ymlaen i astudio Cymraeg Safon Uwch yn gyson mewn rhannau gwahanol o Gymru. Yn ardaloedd consortia y Gogledd a'r De-orllewin a'r Canolbarth, y gyfradd ddilyniant o Gymraeg TGAU i Safon Uwch yw tua 10 y cant, tra bod y gyfradd yn agosach i 5 y cant yng Nghanolbarth y De a'r De-ddwyrain. Yng

nghonsortia Canolbarth De Cymru a'r De-ddwyrain y gwelwyd y rhan fwyaf o'r cynnydd mewn niferoedd TGAU, ac mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn y ganran gyffredinol. Mae'r manylebau ar gyfer arholiadau Cymraeg Iaith Gyntaf TGAU a Safon Uwch wrthi'n cael eu hadolygu.

Gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn ffigurau Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith yn 2013. Mae nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel ail iaith bellach wedi gostwng i lefel debyg i'r hyn a welwyd 20 mlynedd yn ôl, cyn ei bod yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae addysgu Cymraeg ail iaith hyd at 16 oed yn rhan o adolygiad presennol Llywodraeth Cymru o'r cwricwlwm.